CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU
WELSH FOR ADULTS CENTRE NORTH WALES

IS-GRŴP ANSAWDD

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Is-Grŵp Ansawdd ddydd Mercher, Mai 2 am 1.30yp yng Ngholeg Llandrillo Cymru, Llandrillo yn Rhos.

Presennol: Haydn Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); David Hedley Williams (Nant Gwrtheyrn); Janice Lewis (Coleg Menai); Michelle Murphy (NEWI); Pam Evans-Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Angela Hastings (NEWI); Dafydd Rhys (Coleg Harlech WEA); Elwyn Hughes (Prifysgol Cymru, Bangor); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg); Alan Gordon (Coleg Garddwriaeth Cymru); Richard Lewis (Coleg Garddwriaeth Cymru); Barbara Crawford (Coleg Llysfasi); Gwenan Owain (Coleg Llysfasi); Steve Smith (Coleg Iâl); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); Vivienne Martin (Coleg Llandrillo Cymru); Dr Ioan Ap Dewi (Prifysgol Cymru, Bangor); Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Non Edwards (Coleg Glannau Dyfrdwy); Diane Martin (Coleg Glannau Dyfrdwy); Jina Gwyrfai (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Iwan Davies (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau: Andrew Hepton (Coleg Harlech WEA); Jeni Harris (Coleg Iâl); Jackie Doodson (Coleg Llandrillo Cymru); Bryn Williams (Coleg Meirion Dwyfor)

Gweithredu

1. CROESO A RHAGARWEINIAD

Croesawodd Ifor Gruffydd, Cyfarwyddwr Canolfan Cymraeg i Oedolion bawb i'r cyfarfod cyntaf o'r Is-Grwp Ansawdd.

2. ETHOL CADEIRYDD

Cynigwyd enw GO gan PEH ac eiliwyd gan EH. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. Derbyniwyd y swydd gan GO.

3. CYNLLUN ARSYLWI

Aeth HH trwy'r adroddiad gan nodi'r sylwadau canlynol:-

- Diolchodd i'r darparwyr a wnaeth ymateb mor gadarnhaol.
- Mae'r Grŵp Strategol wedi rhoi sêl bendith i'r cynllun mewn egwyddor.
- Nid yw Estyn yn barod i ddod yn aelod o'r Grŵp ond mae'n fodlon i gynrychiolydd o Estyn i fynychu'r cyfarfodydd fel bo'r angen.

- Bydd angen tîm o 15-20 o arsylwyr, bydd gwahoddiad i bob darparwr enwebu aelodau o staff, bydd hyn yn cychwyn reit fuan yn y dyfodol a byddant yn derbyn hyfforddiant gan Estyn neu hyfforddiant gyfatebol.
- Cwrs hyfforddi gan Estyn 3-5 Gorffennaf 2007, dyddiad cau 11 Mai 2007.
- HH yn bwriadu trefnu cwrs gan ymgynghorwyr annibynnol a'r gobaith y bydd hyn yn broject ar y cyd efo'r canolfannau eraill yng Nghymru.
- HH wedi trafod yr elfen o safoni mewnol gyda RhCA a bydd hyn yn ffitio mewn gyda'i gofynion.

Wrth agor y drafodaeth i'r llawr

- Holodd DM os y byddwn yn rhannu'r radd efo'r tiwtor gan fod system arsylwi pob darparwr yn wahanol i'w gilydd. O ran datgelu'r radd – penderfynwyd glynu at argymhelliad yr adroddiad am y tro – sef y rhoddir y frawddeg sy'n cyfateb i'r radd yn yr adborth i'r tiwtor.
- Mynegodd SS bod adolygu perfformiad yn rhwymo i mewn i'r broses arsylwi. Bydd angen hyfforddiant i'r tiwtoriaid sydd yn cychwyn ar y drefn newydd. Bydd hon yn sicr yn broses gefnogol ond bydd rhaid bod yn hyblyg. Bydd pob tiwtor yn derbyn rhybudd cyn cael ei arsylwi.
- Mynegodd HH bod y ffurflenni arsylwi yn dilyn ffurf Estyn, bydd angen creu set o ganllawiau.

Derbyniodd y darparwyr yr adroddiad. Bydd angen enwebu cynrychiolwyr ar gyfer y tîm arsylwi. Is-deitlau Saesneg ar y ffurflenni. Y graddau a'r argymhellion yn cael eu hanfon at bob darparwr y mae tiwtor yn gweithio iddo. Bydd angen i HH roi gwybod i'r darparwyr erbyn diwedd Mehefin yr oriau y disgwylir i aelodau'r tîm arsylwi eu gweithio a'r trefniadau ariannol.

4. CYNLLUNIAU CYD- ARSYLWI

5. GWERTHUSO GAN FYFYRWYR

6. PANELI STAFF / MYFYRWYR

Trafodwyd y tair eitem hon gyda'i gilydd a nodwyd y bydd y Ganolfan angen gwybodaeth amdanynt gan y darparwyr maes o law. Bydd HH yn cysylltu â phawb. **HH**

7. U.F.A.

- Cyfeiriwyd at y Cynllun Datblygu personol, mae AADGOS angen i'r Ganolfan gadw cynllun datblygu personol ar gyfer pob tiwtor, mae templed wedi ei greu gan AADGOS, bydd angen ei drafod ymhellach mewn cyfarfod arall. Bydd angen gwybodaeth gan y darparwyr am gynlluniau datblygu personol y staff amser llawn ond bydd angen i'r Ganolfan eu hunain fynd ati i greu cynlluniau ar gyfer tiwtoriaid rhan amser.
- Holodd IT os bydd Is-banel Hyfforddiant, eglurodd HH ein bod dal ddim yn rhy siŵr faint o arian sydd ar gael eleni oherwydd problemau efo'r cymhwyster newydd.

- Cyfeiriodd EH at yr hyfforddiant i ddarpar diwtoriaid a fydd yn dal i redeg y flwyddyn nesaf, bydd y sesiwn nesaf ar 9fed Mehefin 2007.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w bennu. Y Ganolfan i ymgynghori ar ddyddiadau ar gyfer y cyfarfod nesaf.